

Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

17 Mawrth 2021

Yn Bresennol:

Cyngh Paul Harries (Cadeirydd)

Cyngh Di Clements (Dirprwy Gadeirydd)

Dr Rachel Heath-Davies (Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol) (yn cymryd nodiadau)

Mr Tegryn Jones (Prif Weithredwr)

Nodiadau'r cyfarfod:

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Roedd pob Aelod yn bresennol ac ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Datgan buddiannau

Ni ddatganodd yr Aelodau unrhyw fuddiannau.

3. Eithrio'r cyhoedd

Cytunwyd i eithrio'r cyhoedd gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. Adolygiad o berfformiad y Prif Weithredwr

Roedd yr Aelodau wedi adolygu perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn yr amcanion a bennwyd. Roedd wedi cyflwyno ei adroddiad ysgrifenedig ymlaen llaw cyn y cyfarfod ac roedd pob Aelod wedi'i ddarllen a pharatoi ymlaen llaw. Aeth y Prif Weithredwr drwy bob un o'r amcanion yn eu tro a gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar bob un.

4.1. Amcan A - Ariannol

- 4.1.1. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y sefyllfa ariannol wedi bod yn llawer gwell na'r disgwyl o dan yr amgylchiadau. Roedd yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth i'r Awdurdod drwy'r pandemig COVID gydag amrywiol grantiau. Amlinellodd y Cadeirydd y pwysau parhaus sy'n debygol o fod ar gyllid cyhoeddus, a bod gofyn felly i'r Prif Weithredwr gynllunio ar gyfer y cwmp anochel mewn cyllid cyhoeddus. Roedd RHD wedi awgrymu dull proffilio cyllideb o gynllunio ar gyfer

gwahanol senarios. Hefyd ailadroddodd yr Aelodau pa mor bwysig yw gweithio yn effeithlon a bod yn gydnerth ac i geisio cyfleoedd o gyfnod y pandemig i glustnodi arbedion posibl ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy nawr bod ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu treialu. Cytunodd y Panel y byddai rhywfaint o broffilio cyllideb yn ddefnyddiol i gynllunio ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir.

- 4.1.2. Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi cysylltu hyn ag amcanion B a C ar flaenoriaethau. Roedd yn rhagweld bod angen blaenoriaethu datgarboneiddio erbyn 2030 o ran gwariant, a soniodd am newidiadau posibl mewn rolau neu arbenigedd ychwanegol i symud y gwaith hwn yn ei flaen yn y dyfodol.
- 4.1.3. Rhannodd y Cadeirydd wybodaeth o'r gynhadledd ar Dlodi Plant a gynhaliwyd yng Nghyngor Sir Penfro y bore hwnnw, a chytunodd y panel bod yr ystadegau yn Sir Benfro yn peri pryder, a soniodd y Prif Weithredwr bod angen anelu'n uwch, ac y gallai'r Parc gyfrannu, ond nid ar ei ben ei hun, i ysgogi newid yn y cyswllt hwn. Rhybuddiodd DC i gymryd gofal gan mai cyfyngedig fyddai'r rôl y gallai'r Awdurdod ei chwarae.
- 4.1.4. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y ceisiadau am grant i Lywodraeth Cymru wedi bod yn geisiadau munud olaf ac mai prin oedd y cyfle i gynnwys Aelodau i gynnig syniadau ar gyfer cynigion. Roedd cynnal gweithdai gyda'r Aelodau a'r staff i drafod syniadau yn ddefnyddiol fel bod rhanddeiliaid allweddol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, a bod hyn i barhau cyn i unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol godi.

4.2. Amcan B – Graddfa uchelgais

- 4.2.1. Dywedodd y Prif Weithredwr bod ffocws rhai cynigion cyllido wedi bod ar raddfa rhy fach hyd yn hyn a bod hyn yn creu nifer o faterion yn ymwneud â gallu'r staff i gyflawni prosiectau. Yn y dyfodol ei obaith oedd y gallai'r Awdurdod glustnodi nifer llai o brosiectau sy'n cael effaith fwy arwyddocaol. Cytunodd bod potensial i'r Aelodau fod yn rhan o'r broses hon.
- 4.2.2. O edrych i'r dyfodol, roedd gan y Prif Weithredwr 4 proses allweddol mewn golwg: Cynllun ar dudalen (strategaeth lefel uchel y Parc); byddai'r strategaeth hon yn sbarduno'r Cynllun Corfforaethol (oedd angen iddo fod yn fyrrach ac yn gliriach); ac y byddai'r ddwy broses hyn yn arwain at adolygiad o strwythur a rolau; ac yn deillio o hyn, adolygiad o'r graddfeydd cyflog.
- 4.2.3. Holodd y Cadeirydd am adroddiad diweddar Archwilio Cymru, a chytunodd y Prif Weithredwr i ddsbarthu'r adroddiad hwnnw i aelodau'r panel.

- 4.2.4. Gofynnodd RHD am ragor o wybodaeth am y naratif oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig ar effaith y ffyrlo ar y staff. Eglurodd y Prif Weithredwr mai profiad heriol i rai aelodau o'r staff oedd bod ar ffyrlo. Hefyd eglurodd y Prif Weithredwr bod y rheolwyr yn ogystal wedi teimlo effaith y ffyrlo.
- 4.2.5. Holodd DC am y cyfleoedd sy'n deillio o'r pandemig ac a ellid cadw rhywfaint o'r arbedion ariannol a wnaed. Er bod gostyngiad mewn incwm, bu gostyngiad mewn costau hefyd, a bod cyfle i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol.
- 4.2.6. Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu'r adborth ac yn clustnodi newidiadau i'r broses caffael fel un maes i'w wella.

4.3. Amcan C – Blaenoriaethau i'r dyfodol

- 4.3.1. Gobaith y Prif Weithredwr oedd cyflwyno blaenoriaethau gerbron cyfarfod yr Awdurdod fis Mai, ac y byddai ymgynghoriad yn dilyn hynny ac wedyn byddai papur yn dod yn ôl i'r Bwrdd fis Mehefin / Gorffennaf.

4.4. Amcan D – Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

- 4.4.1. Soniodd y Prif Weithredwr am y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol oedd wedi sicrhau cytundeb pro bono gyda Palladium, a hefyd astudiaeth o effaith carbon ar yr 8 Tirwedd Dynodedig yng Nghymru.

4.5. Amcan E – Strwythur Rheoli Cyrchfannau

- 4.5.1. Nawr bod y strwythur ar waith, y pwyslais bellach yw'r gweithrediadau a cheisio elwa o'r gweithrediadau hynny. Dywedodd y Prif Weithredwr bod Croeso Sir Benfro wedi derbyn £91k o arian grant ar gyfer marchnata i Gyngor Sir Penfro. Amlinellodd DC y modd yr oedd yn rhagweld y byddai hyn yn cael ei ariannu'n raddol gan gwmnïau preifat wrth i gyllid y Parc ostwng gyda threigl amser.
- 4.5.2. Holodd DC am y cysylltiadau rhwng brandiau ac ymgyrchoedd marchnata, a chododd RHD y cysylltiadau hefyd â'r Llwybrau Celtaidd, a chytunodd y panel bod angen cyd-gyfeirio'r rhain i sicrhau eu bod yn cyrraedd y nod ac nid yn dyblygu ymdrech nac adnoddau neu o bosibl yn cymhlethu'r sefyllfa.
- 4.5.3. Cytunodd y Prif Weithredwr bod angen cysoni'r rhain a hefyd i osgoi dyblygu.

4.6. Amcan F – Iechyd a Lles y Staff

- 4.6.1. Roedd iechyd a lles y staff wedi bod yn flaenoriaeth yn arbennig yn ystod y cyfnod diwethaf hyn, a barnai'r Prif Weithredwr y byddai'n parhau felly am gryn amser i ddod.

4.6.2. Roedd y cais am y Safon Iechyd Corfforaethol wedi'i oedi am y tro oherwydd yr angen i ganolbwyntio amser ar iechyd a lles y staff.

4.7. Amcan G – Ffyrdd effeithlon o weithio

4.8. Amcan H – Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Aelodau

4.8.1. Roedd y cais am y Siarter Uwch Aelodau yn barod, a gofynnir i'r Aelodau gytuno i gyflwyno'r cais yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

4.9. Amcan I – Gweithio gyda Phartneriaid i ddylanwadu ar bolisiau

4.9.1. Eglurodd y Prif Weithredwr bod Maniffesto Parciau Cenedlaethol Cymru wedi'i ddsbarthu i'r prif bleidiau gwleidyddol, ac er na fu llawer o adborth hyd yn hyn, ei obaith oedd y byddai nifer o'r argymhellion yn cael eu mabwysiadu gan bleidiau gwleidyddol yn eu maniffestos.

4.9.2. [Oherwydd problemau signal, gadawodd y Prif Weithredwr y cyfarfod sawl gwaith yn ystod yr eitem hon.]

4.9.3. Roedd y Cadeirydd wedi disgrifio Maniffesto Cefn Gwlad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chytunodd y Prif Weithredwr bod cyfranogiad y Cadeirydd ar Fforwm Gwledig y Gymdeithas wedi bod yn ddefnyddiol.

4.10. Amcan J – Cynnwys y Cadeirydd

4.10.1. Roedd yr Aelodau wedi cyflwyno Rhybuddion o Gynnig yn ddiweddar oedd yn dangos bod yr Aelodau yn cyfranogi'n dda. Roedd y gweithdy diweddar ar flaenoriaethau hefyd wedi ymgysylltu â'r Aelodau. Nid yw strwythurau'r pwyllgorau o reidrwydd yn addas ar gyfer trafodaeth agored tra bod gweithdai yn cael eu croesau fel modd o drafod themâu a materion h.y. y cyfeiriad strategol, cyllidebu, a'r modd y mae'r Awdurdod yn cael ei redeg.

5. Pennu amcanion i'r dyfodol

Cytunwyd ar yr amcanion canlynol ar gyfer y cyfnod nesaf:

- i. Sicrhau bod adnoddau'r Awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol gan ystyried cynllunio ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir, ystyried yr effaith a'r gwersi o'r cyfnod pandemig Covid19, cynnwys Aelodau yn y broses, codi uchelgais y staff, cynyddu effeithlonrwydd a chydnerthedd drwy ffyrdd newydd o weithio, a cheisio cyfleoedd ac arloesedd drwy ffynonellau newydd o gyllido;
- ii. Cwblhau'r adolygiad corfforaethol, datblygu strategaeth hirdymor yr Awdurdod, diwygio'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau, adolygu strwythur yr Awdurdod, a diwygio'r Graddfeydd Cyflog;

- iii. Datblygu a gweithredu mentrau ar dir ac ar fôr i alluogi'r Awdurdod i gynorthwyo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth;
- iv. Cefnogi iechyd a lles y staff drwy gynorthwyo'r Rheolwr Adnoddau Dynol i gwblhau'r adolygiad o'r polisïau, a chwblhau Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru; a
- v. Gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i barhau i godi proffil yr Awdurdod ac i ddylanwadu ar bolisïau ôl Brexit yn ogystal â'r cyfnod sy'n arwain i fyny at etholiadau'r Senedd yn 2021 ac wedi hynny.